Cronfa Dreftadaeth y Loteri: Cyfeiriad a chyllid y dyfodol

Richard Bellamy: Pennaeth CDL yng Nghymru, a Stephen Barlow: Rheolwr Datblygu, Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) yn ymgynghori ar ei rôl, ei gweledigaeth a'i blaenoriaethau cyllido ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Mae cyfle unigryw wedi codi i bawb sy'n ymddiddori a gofalu am dreftadaeth eithriadol y DU i fynegi eu barn ar gynlluniau'r Gronfa ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Gronfa yn cefnogi prosiectau sy'n amrywio o adfer tirweddau naturiol i achub adeiladau sydd wedi'u hesgeuluso; o gofnodi hanes cymunedol amrywiol i ddarparu hyfforddiant sy'n newid bywydau.

Rydyn ni'n awr eisiau clywed beth mae pobl yn credu y dylai ein rôl, ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau fod fel cronfa dreftadaeth fwyaf y DU yn ystod ei fframwaith cyllido strategol nesaf – y cyfnod o 2019-2024.

Bydd y gweithdy yn gyfle i gyfranogwyr:

- ddarganfod mwy am waith CDL yng Nghymru; a
- thrafod a chyfrannu eich sylwadau cynnar am gyfeiriad CDL yn y dyfodol.